



Grŵp Trawsbleidiol ar Glefydau Seliag a Dermatitis Herpetiformis Cross-party Group on Coeliac Disease and Dermatitis Herpetiformis

Dyddiad ac amser: Nos Fawrth 22 Tachwedd 2016, 18.00-19.45

Tuesday 22 November 2016, 18.00-19.45

Lleoliad: Ystafell Gynadledda 24, Tŷ Hywel.

Conference Room 24, Tŷ Hywel

ALLWEDD: AC (Aelod Cynulliad) - CCG (Grŵp Comisiynu Clinigol) - CD (Clefyd Seliag) - CUK (Coeliac UK) - GF (Heb glwten) - GFG (Gwarant bwyd heb glwten) - GP (Meddyg Teulu) - HCP (Gweithiwr Iechyd Proffesiynol) - BILL (Bwrdd Iechyd Lleol).

Cofnodion y cyfarfod

1. **Yn bresennol:** Cadeirydd - Dr Dai Lloyd AC (DL), Ysgrifennydd - Tristan Humphreys (TH), Norma McGough (NMG), Graham Philipps, Sian Evans, Claire Constantinou (CC), Alison Jones (AJ), Mark Isherwood AC.

Ymddiheuriadau: Mike Hedges AC, Henry Wilkins, Jill Swift, Geraint Preest (GPr)

2. Cyflwyniadau a sylwadau agoriadol gan y cadeirydd

Croesawodd DL y rhai a oedd yn bresennol, gan gyflwyno ei hun fel darpar Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol newydd (CPG) ar Glefyd Seliag a Dermatitis Herpetiformis. Soniodd mai ef oedd Cadeirydd cyntaf y grŵp yn 2008, ond fe'i gorfodwyd i roi'r gorau i'r swydd yn 2011 pan gollodd ei sedd. Mae DL hefyd yn Llywodraethwr yn CUK. Rhoddodd DL drosolwg cryno o gylch gwaith y Cynulliad a gwahoddodd aelodau'r grŵp i gyflwyno eu hunain yn eu tro.

3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2016

a. Trafod y cofnodion a'u cymeradwyo

Derbyniwyd y cofnodion yn unfrydol heb unrhyw newidiadau iddynt.

b. Adroddiad etifeddiaeth

Rhoddodd TH drosolwg byr o'r adroddiad etifeddiaeth a baratowyd gan y grŵp trawsbleidiol blaenorol. Defnyddiwyd y prif bwyntiau o'r adroddiad hwn i lywio agenda'r cyfarfod hwn.

CAM I'W GYMRYD: Cytunodd TH i anfon copi o'r adroddiad at yr holl Aelodau yn dilyn y cyfarfod.

4. Ethol swyddogion

Etholwyd DL yn Gadeirydd a TH yn Ysgrifennydd. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad.

Cadeirydd: DL (Cynigiwyd gan: TH Eiliwyd gan: AJ) / Ysgrifennydd: TH (Cynigiwyd gan: AJ Eiliwyd gan: CC:

5. Y wybodaeth ddiweddaraf:

a. Ymgyrchoedd Coeliac UK

Rhoddodd NMG y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgyrch 'Is it Coeliac Disease?' gan Coeliac UK a rhannodd ddogfen sy'n crynhoi'r llwyddiannau hyd yn hyn. Hefyd, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am ail-lansio'r warant bwyd heb glwten (GFG).

Ymgyrch 'Is it Coeliac Disease?'

- Cafodd yr ymgyrch ei lansio gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o glefyd seliag ymhlith y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd mewn ymateb i gyfraddau diagnosis isel (DU – 24 y cant / Cymru – 22 y cant)
- Mae'r ymgyrch yn annog pobl i lenwi asesiad ar-lein a cheisio diagnosis.
- Gweithgareddau ymgysylltu: Poster, taflenni, digwyddiadau dros dro (gan gynnwys un yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf), llythyrau i feddygfeydd meddygon teulu, ymgyrch *Linked In* wedi'i hanelu at feddygon teulu, ymgyrch ddigidol a hysbyseb deledu. Bydd yr ymgyrchu digidol a'r hysbysebion teledu yn parhau y flwyddyn nesaf (Ionawr).
- Peilot fferylliaeth: Mae fferyllwyr wedi'u hyfforddi i brofi grwpiau risg uchel gan ddefnyddio profion POC ar draws 15 o fferyllfeydd cymunedol.
- Mae gwerthusiad wedi'i drefnu ar gyfer y flwyddyn nesaf

Ail-lansio'r Warant Bwyd Heb Glwten (Ionawr 2017)

- Dyma gynllun sydd wedi'i anelu at archfarnadoedd i annog iddynt gynyddu'r ystod o fwydydd heb glwten y maent yn ei chynnig drwy ymrwmo i 'Gwarant Bwyd Heb Glwten'. Mae'n rhaid i siopau gynnig basged o 8 o fwydydd penodol (4 os yw'r siop yn llai na 3,000 troedfedd sgwâr o faint) er mwyn bodloni'r warant bwyd heb glwten.
- Mae'r ymgyrch ar ei newydd wedd yn adlewyrchu'r opsiwn newydd o fased o bedair eitem ar gyfer siopau llai sy'n canolbwyntio ar gyfleustra yn dilyn arolwg o weithwyr proffesiynol gofal iechyd a thrafodaethau ag archfarnadoedd.
- Nid yw'r ymgyrch o reidrwydd yn ymateb i'r heriau ynghylch presgripsiynau yn Lloegr ond mae'n amlwg bod cysylltiad o ran argaeledd.

Gofynnodd AJ am ragor o wybodaeth a thynnodd NMG sylw at yr adran 'Ymgyrchoedd ac Ymchwil' ar wefan CUK <https://www.coeliac.org.uk/campaigns-and-research/>

Ymgyrch bwyta allan

Esboniodd TH y bydd CUK yn canolbwyntio ar fwyta allan y flwyddyn nesaf, a bydd y warant yn cyfrannu at hyn. Caiff yr ymgyrch bwyta allan ei lansio yn ystod yr Wythnos Ymwybyddiaeth ym mis Mai 2017.

b. Informatica – y wybodaeth ddiweddaraf gan CUK a GP

Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am y broses o gyflwyno'r prosiect meddalwedd Informatica yng Nghymru yn cael ei darparu ar gyfer y cyfarfod nesaf. Cododd AJ bryderon am y diffyg cyfathrebu â gofal eilaidd ac effaith y feddalwedd ar wasanaethau eraill. Er enghraifft, mae nifer y cleifion sydd â diagnosis o glefyd seliag ym mhreactis un meddyg teulu yn ardal Hywel Dda wedi cynyddu o 6 i 39 o ganlyniad i'r feddalwedd. Un practis yw hwn sydd ag oddeutu 9,000 o gleifion. Os byddai hyn yn cael ei ailadrodd ar draws y 56 practis arall yn ardal y Bwrdd Iechyd, byddai'n cael effaith sylweddol.

Gofynnodd NMG am wybodaeth ychwanegol gan AJ i helpu i lywio'r gwaith. Mae AJ yn cwrdd â'r practis cyn bo hir a chytunodd i gadarnhau'r ffigurau hyn gyda'r gweithwyr iechyd ynddo.

Nododd CC fod nifer yr achosion o ddiagnosis ledled Cymru yn debygol o fod yn wahanol mewn gwahanol lefydd, ac y gallai'r cynnydd mewn ardaloedd eraill fod yn fwy byth. Fel cyd-destun,

esboniodd CC fod y cynnydd a gyfeiriwyd ato gan AJ yn cyfateb i sawl mis o apwyntiadau yn ei chlinig ar gyfer pob cyflwr gastroenterolegacidd ac nid dim ond clefyd seliag. Nododd DL yr her dechnolegol bosibl os nad yw cyfrifiaduron meddygfeydd Meddygon Teulu yn gallu cyfathrebu â systemau gofal eilaidd.

Croesawodd TH y wybodaeth gan AJ ac eglurodd fod yr anallu i gadarnhau'r effaith ar gyfraddau cyfeirio drwy'r feddalwedd yn ganolog oherwydd sensitifrwydd ynghylch archwilio canolog wedi bod yn rhwystredig. I'r perwyl hwn, mae CUK wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i geisio rhoi fframwaith gwerthuso ar waith. Cytunodd y grŵp y dylai hyn fod yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen ac y byddai'n trafod y mater hwn ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

(Golygu: Mae cyfarfod rhwng CUK a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru bellach wedi'i drefnu ar gyfer mis Rhagfyr).

CAM I'W GYMRYD: AJ i gadarnhau'r ffigurau o'r practis meddyg teulu

CAM I'W GYMRYD: TH i ofyn i AJ am y ffigurau hyn

CAM I'W GYMRYD: TH a NMG i adrodd yn ôl i'r grŵp ar y cyfarfod gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (gweler uchod)

c. Safon Ansawdd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)

Nododd NMG fod safon ansawdd NICE ynghylch Clefyd Seliag wedi'i chyhoeddi. Mae'r safon hon yn gosod targedau ar gyfer gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a chomisiynwyr. Dyma'r tro cyntaf y bu safon ar gyfer Clefyd Seliag. Mae CUK wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o lunio'r safon. Mae'n cynnwys cyfres o ddatganiadau ar y materion isod:

- Pwysigrwydd adnabod clefyd seliag
- Safon ar gyfer endosgopi, gan gynnwys chwe wythnos o amser aros
- Datganiad am yr hawl i gael gweithiwr proffesiynol gofal iechyd sy'n arbenigo mewn diet heb glwten
- Pwysigrwydd cyswllt â gweithiwr proffesiynol gofal iechyd ar gyfer y rhai sydd â Chlefyd Seliag
- Pwysigrwydd cynnal adolygiad blynyddol

Dywedodd CC ei bod yn teimlo bod yr elfen o gael adolygiad blynyddol yn ddiddorol oherwydd bod anghydraddoldeb o ran sut y mae hyn yn cael ei wneud ar draws Cymru, hyd yn oed o fewn ei bwrdd iechyd ei hun. Mae BILI Caerdydd a'r Fro wedi bod yn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn, ac maent wedi dechrau gwaith ar lwybr, ond mae sicrhau bod adnoddau dietegol ar gael yn parhau i fod yn her. Yn ôl pob tebyg, dietegwyr sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni hyn, a hynny llawer yn rhatach na meddygon teulu.

Cytunodd NMG ond nododd fod diffyg tystiolaeth yn sail i lawer o'r datganiadau sy'n cael eu gwneud o ran pwy sydd yn y sefyllfa orau i gynnal adolygiad blynyddol. Dywedodd fod CUK yn cefnogi gwaith ymchwil i helpu i fynd i'r afael â hyn.

Nododd CC y ddealltwriaeth gyfyngedig o glefyd seliag ymysg dietegwyr cymunedol, gan nodi bod hyn yn ddealladwy o ystyried y niferoedd cyfyngedig y maent yn ymdrin â nhw. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod yr adnodd hwn yn un eithaf arbenigol. Hefyd, cyfeiriodd CC at y rôl y mae'r adolygiad blynyddol yn ei chwarae wrth osgoi gwastraff, er enghraifft o ran presgripsiynau a sicrhau bod cleifion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Awgrymodd DL fod y grŵp yn blaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu llwybr i gleifion. Cytunodd NMG, gan awgrymu y gallai'r gwaith sy'n cael ei wneud yn yr Alban ar lwybr gofal unedig i gleifion clefyd seliag fod o ddiddordeb.

CAM I'W GYMRYD: CC i roi cyflwyniad ar y llwybr yn y cyfarfod nesaf
CAM I'W GYMRYD: NMG i roi gwybodaeth am lwybr cleifion yn yr Alban

d. Presgripsiynau – y wybodaeth ddiweddaraf a thrafodaeth

Rhoddodd NMG y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau yn Lloegr ynghylch presgripsiynau heb glwten.

- Mae CUK yn ymateb i argyfwng o ran cyfyngu ar ddarpariaeth, neu ei dileu, gan Grwpiau Comisiynu Clinigol yn Lloegr. O'r 209 o grwpiau comisiynu clinigol yn Lloegr, mae 50 y cant naill ai wedi cyfyngu ar eu darpariaeth heb glwten neu wedi'i dileu. O'r rheiny, mae 20 y cant wedi dileu'r ddarpariaeth yn llwyr ac mae'r rhan fwyaf o'r gweddill wedi symud tuag at system PrescQIPP <https://www.prescqipp.info/resources/send/81-gluten-free/1586-bulletin-69-gluten-free-prescribing>
- Mae CUK wedi bod yn ysgrifennu at grwpiau comisiynu clinigol yn Lloegr i dynnu sylw at yr heriau o ran mynediad, argaeledd a chost. Mae'r elusen hefyd yn edrych ar yr opsiynau o ran adolygiad barnwrol.
- Cynhaliodd CUK arolwg o aelodau i drafod eu harferion presgripsiwn a'u barn, a fydd yn cael ei ddefnyddio i lywio ein gwaith.
- Cyflwynodd Kevan Jones AS gynnis cynnar-yn-y-dydd ym mis Mai ac arweiniodd ddadl yn San Steffan ar bresgripsiynau ym mis Tachwedd. Mae Kevan hefyd wedi ysgrifennu at yr Adran Iechyd i drefnu cyfarfod yn dilyn y ddadl yn Neuadd San Steffan, lle soniodd David Mowat AS y byddai adolygiad o bolisiau presgripsiwn yn Lloegr yn cael ei gynnal o fewn y chwe mis nesaf.
- Mae CUK yn gynyddol yn ymgyrchu i sicrhau dilyniant ac i sicrhau bod effaith tynnu presgripsiynau oddi ar cleifion sydd â chlefyd seliag yn cael ei mesur.
- Mae papur briffio ar gael ar wefan Coeliac UK: <https://www.coeliac.org.uk/gluten-free-diet-and-lifestyle/prescriptions/prescription-policies/>

Gofynnodd CC i NMG a oedd CUK wedi sylwi ar unrhyw gynnydd yn argaeledd bwydydd heb glwten mewn archfarchnadoedd yn yr ardaloedd hynny lle mae presgripsiynau wedi'u tynnu'n ôl. Mae hi wedi cael trafodaeth gyda AJ am gynlluniau talebau ac mae ganddi bryderon ynghylch mynediad; er enghraifft, cwynodd ei chleifion fod siopau lleol yn gwerthu amrywiaeth eang o gacennau heb glwten, ond nid oes digon o fwydydd cyffredinol heb glwten fel bara a pitta ar gael. Sut mae hyn yn cyd-fynd â'r agenda bwyta'n iach? Nid y costau tymor byr sy'n gysylltiedig â chyfyngu ar bresgripsiynau yw'r brif broblem, ond yr effeithiau tymor hwy o ddiffyg ymlyniad ac iechyd gwael.

Esboniodd NMG fod y farchnad presgripsiynau heb glwten yn werth £26 miliwn. Nid pobl sydd â chlefyd seliag sy'n gyrru galw yn y farchnad yn bennaf, felly mae tynnu presgripsiynau yn ôl yn annhebygol o gael effaith enfawr ar y galw. Byddai CUK yn argymhell bod cleifion yn llobio siopau lleol i ofyn iddynt werthu mwy o fwydydd cyffredinol. Fodd bynnag, mae bara ffres yn fwy darfodus na grawnfwydydd brechwast, cacennau a bisgedi, felly bydd siopau'n dueddol o gael mwy o'r bwydydd hirhoedlog hynny ar eu silffoedd. Cafwyd trafodaeth ar gynnwys fitaminau a mineralau mewn bara, ac esboniodd NMG nad oes unrhyw safonau wedi'u gosod ar gyfer cynnwys haearn a chalsiwm mewn bara heb glwten a bod hyn yn rhywbeth y mae CUK wedi bod yn llobio o'i blaid.

Ar hyn o bryd, mae pob BILL yng Nghymru wedi'i ymrwymo i [Ganllawiau Cenedlaethol ynghylch Presgripsiynau](#). Cafwyd peth trafodaeth ar y ffordd orau o ddarparu presgripsiynau yn y dyfodol, gyda DL yn dadlau o blaid system sy'n seiliedig ar fferylliaeth tra bod AJ yn argymhell cynllun tebyg i gynllun talebau Dyffryn Efrog.

Mae AJ yn gobeithio cynnal cynllun peilot yn ardal Hywel Dda yn seiliedig ar y model yn Nyffryn Efrog yn Lloegr.

- Caiff cerdyn rhagdaledig ei ddarparu i dalu cyfran o gost bwydydd heb glwten mewn archfarchnad.
- Telir cyfran o gost bwyd heb glwten ar gyfer cleifion sydd â chlefyd seliag
- Mae hyn yn arbed amser meddygon teulu, ac yn torri costau mân dreuliau a thaliadau eraill.
- Mae Dyffryn Efrog wedi sicrhau canlyniadau ffafriol iawn.
- Mae AJ wedi gwneud cais am gyllid ymchwil clinigol, a bydd hi'n cael gwybod a yw hi wedi bod yn llwyddiannus ym mis Rhagfyr 2016.

Croesawodd DL y cynllun peilot, ond dywedodd y byddai'n ffafrio ei roi ar waith mewn fferylliaeth gan fod hyn yn cynnal cyswllt o ran hybu iechyd ac yn cynnig pwynt cyswllt gyda gweithiwr iechyd ar gyfer unrhyw ymholiadau sydd gan y claf. Awgrymodd AJ mai un ateb fyddai nodi bod yn rhaid i gleifion fynychu adolygiad blynyddol er mwyn cael y cerdyn rhagdaledig.

Nododd CC ddsbarthiad poblogaeth anarferol Cymru a'r her sy'n codi oherwydd natur wledig a daearyddiaeth y wlad. Mae sicrhau mynediad cyfartal yn hynod bwysig. Mae Hywel Dda yn cynnig cyfle da i brofi hyn gan fod ganddynt gymysgedd o ardaloedd gwledig a threfol, a gall y cynllun peilot helpu i lywio gwaith ar y mater hwn.

Lleisiodd AJ bryderon am gostau darparu mewn fferyllfeydd o'u cymharu ag archfarchnadoedd. Nid yw'r llwybr fferyllfeydd cymunedol yn mynd i'r afael â'r costau hyn. Awgrymodd CC broses gaffael Cymru gyfan fel modd o gyfyngu ar y costau hyn. Roedd cynllun presgripsiynau ar waith yng Nghaerdydd yn y gorffennol. Fel rhan o'r cynllun hwn, roedd yn rhaid i fferyllfeydd alinio amseriadau cyflenwi ac yn y blaen, ac roedd uchafswm wedi'i bennu o ran ad-daliadau. Croesawodd CC waith AJ, gan nodi ei fod yn fuddiol iawn oherwydd bod angen inni edrych ar yr hyn sy'n gweithio i Gymru. Hefyd, nodwyd y gallai unrhyw gynllun yng Nghymru gyfuno rhinweddau modelau eraill.

CAM I'W GYMRYD: AJ a CC i roi cyflwyniad ar eu profiadau parhaus ynghylch presgripsiynau yng nghyfarfod nesaf y grŵp trawsbleidiol.

e. Gwasanaeth gastroenteroleg ac endosgopi

Awgrymodd TH y dylid edrych ar hyn yn y cyfarfod nesaf ochr yn ochr â'r drafodaeth ar Informatica.

f. Cymorth ar gyfer dysgwyr ag anghenion meddygol

Rhoddodd TH y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau ers y cyfarfod diwethaf. Cafodd y canllawiau presennol ar gyfer ysgolion eu hadolygu yn gynharach eleni, a chymerodd CUK rhan yn yr ymgynghoriad hwnnw ynghyd ag eraill yn yr ystafell. Mae CUK wedi cael gwahoddiad i fynychu sesiwn drafod gyda Llywodraeth Cymru ar y canllawiau diweddaraf ar 7 Rhagfyr. Disgwylir i'r canllawiau newydd gael eu cyhoeddi yn fuan wedi hynny.

Ochr yn ochr â hynny, mae'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn cael ei drafod gan y Cynulliad ar hyn o bryd. Mae hyn yn bwysig oherwydd yn wahanol i Loegr nid oes dyletswydd statudol ar ysgolion nac awdurdodau lleol i gadw at y canllawiau uchod ar hyn o bryd, a gellir sicrhau bod hyn yn digwydd drwy gynnwys anghenion meddygol yn y Bil. Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud hyn ar hyn o bryd, ond mae CUK a phartneriaid yn llobio iddi newid ei barn.

CAM I'W GYMRYD: TH i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod nesaf

6. Digwyddiad lansio

Awgrymodd TH y dylai'r grŵp trawsbleidiol gynnal derbyniad yn yr Oriel fel rhan o weithgareddau CUK yn ystod yr Wythnos Ymwybyddiaeth ym mis Mai. Mae TH wedi siarad â Charlton House ac maent yn hapus i gefnogi'r ymgyrch bwyta allan yn ystod yr wythnos hon drwy gynnig rhagor o opsiynau heb glwten ar fwydlen y Cynulliad a hyrwyddo'r ymgyrch i gwsmeriaid.

CAM I'W GYMRYD: TH i gysylltu â DL a Charlton House i drafod trefnu digwyddiad yn yr Oriel

7. Trafodaeth ar flaenoriaethau'r grŵp a'r camau nesaf

Roedd y grŵp yn teimlo bod y mater hwn wedi cael digon o sylw ac awgrymodd y dylid canolbwyntio ar y materion a ganlyn:

Llwybr i gleifion (CC i roi cyflwyniad ar y Llwybr Clefyd Seliag)
Presgripsiynau (AJ i roi cyflwyniad ar y cynllun talebau arfaethedig)
Informatica a gofal eilaidd/effaith y feddalwedd (GPr/CUK)

8. Unrhyw Fater Arall

Mae CC wedi bod yn gweithio ar fideo sy'n crynhoi gwybodaeth allweddol am ddiagnosis. Bydd y gwaith hwn yn cael ei rannu yn y cyfarfod nesaf.

9. Dyddiad y cyfarfod nesaf – i'w gadarnhau.

Awgrymodd DL y dylid cynnal y cyfarfod nesaf ym mis Chwefror/Mawrth.

CAM I'W GYMRYD: TH i gysylltu â CC, AJ a GPr i drafod dyddiadau addas oherwydd y bydd yn rhaid iddynt oll fod yn bresennol.

19:45 – Diwedd